Ysgol Tryfan

24/04/13

Parthed: Taith Sioe Frecwast Radio 1 yn Ysgol Tryfan

Annwyl Riant/Warcheidwad
Gallwn erbyn hyn gyhoeddi'r newyddion cyffrous y bydd sioe frecwast Radio 1 gyda'r cyflwynydd Nick Grimshaw yn cael ei darlledu'n fyw o Ysgol Tryfan fore Llun nesaf – 29/04/13. Bydd y sioe yn cynnwys perfformiad byw gan grŵp Saesneg adnabyddus a grŵp o'r ysgol sef Yr Ayes. Bydd y sioe frecwast ei hun yn cychwyn am 6.30 yn y bore hyd at 10.00 – a gobeithia'r BBC gael cynulleidfa yn y Neuadd erbyn 7.30.

O ystyried mai tair ysgol yn unig a ddewiswyd trwy Brydain ar gyfer y daith mae'r sioe hon yn gyfle euraid i ddisgyblion Ysgol Tryfan. Fodd bynnag er mwyn sicrhau llwyddiant y bore bydd yn rhaid sicrhau cydweithrediad gan bawb. Ymddiheuraf fod y newyddion hwn yn hwyr yn dod atoch ond mae hyn o ganlyniad i raglen dynn y BBC ac elfen o gyfrinachedd.

Hyderaf y bydd bore Llun yn brofiad cyffrous i ni fel ysgol. Ein hegwyddor wrth drefnu yw ceisio cynnwys cynifer â phosib o'n disgyblion a pheidio eithrio'r un flwyddyn. Er mwyn gwneud hyn, o fewn cyfyngiadau Neuadd fechan, bydd yn rhaid i ni drefnu dau eisteddiad a sicrhau fod y dysgwyr yn symud yn llyfn ac yn ufudd rhwng y ddau sesiwn. Rydym yn gwahodd disgyblion blynyddoedd 10, 11, 12 a 13 i fod yn gynulleidfa yn y Neuadd rhwng 7.30 ac 8.55. Bydd yn rhaid i ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11 wedyn symud ar eu hunion i'w hystafelloedd cofrestru fel y gall disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 symud i mewn i'r neuadd yn llyfn i fod yn gynulleidfa rhwng 8.55 a 10.00.

Bydd y sioe frecwast yn amlwg yn tarfu ar rediad arferol yr ysgol fore Llun. Os yw'r disgyblion hŷn yn dymuno bod yn y gynulleidfa disgwylir iddynt gyrraedd yr ysgol erbyn 7.25 Yn anffodus ni fydd cludiant ysgol ar gael ar yr adeg yma. Ni ddylai'r disgyblion iau gyrraedd yr ysgol dim cynt nag arfer - ni fydd mynediad i ardal y neuadd iddynt tan 8.55.

Hoffwn atgoffa pawb fod gwisg ysgol briodol yn hollbwysig fore Llun hefyd. Bydd elfen o sicrhau diogelwch wrth fynedfeydd yr ysgol fore Llun - a bydd gwisg Ysgol Tryfan yn un modd o adnabod ein disgyblion ni. Mae hyn yn cynnwys wrth gwrs tei coch i'r chweched dosbarth.

Gobeithiaf yn fawr fod y wybodaeth a roddir yma'n egluro'r trefniadau i bawb yn eglur - a gobeithiaf y bydd y sioe fore Llun yn brofiad cyffrous a gwerth chweil i'n disgyblion i gyd.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

Ysgol Tryfan

24/04/13

Re: Radio 1 Breakfast Show Tour in Ysgol Tryfan

Dear Parent/Guardian
We are now able to confirm the exciting news that the Radio 1 Breakfast Show with Nick Grimshaw will be broadcast live from Ysgol Tryfan next Monday morning (29/04/13) as part of their live tour. The show will include a performance from a live well-known band as well as a school band Yr Ayes. The show will be live from 6.30 until 10.00a.m. and the BBC hope to have an audience present by 7.30.

Considering that the tour will only include three secondary schools throughout Britain this is a fantastic opportunity for the pupils at Ysgol Tryfan. However for the visit to succeed it will mean thorough preparations and cooperation from all involved. I am aware that the information is rather late getting to you as parents but this is due to the BBC's tight schedule.

We hope that the experience will be an exciting one for the whole school. Our intention therefore is to include the largest number possible of pupils within the confines of our rather small hall. We will therefore have two different sittings for the audience. We will invite year 10, 11, 12 and 13 students to be present in the school hall between 7.30a.m. and 8.55a.m. Year 10 and 11 pupils will then have to leave the hall to their registration classes so that year 7, 8 and 9 pupils can seamlessly and quickly move into the hall from 8.55 until the end of the show at 10.00a.m.

This will obviously mean a disruption to the normal school day. The elder students, if they wish to be in the audience, will have to reach school by 7.25. Unfortunately school transport will not be available at this time. The younger pupils should not reach school earlier than usual – because the hall will not be accessible to them until 8.55.

Correct school uniform is imperative on Monday. There will be a level of security present by the school entrances and the school uniform, including the tie for the sixth formers, will be an important means of identification.

I hope that the information given above is sufficient and I'm confident that the Breakfast Show will be an exciting and worthwhile experience for our pupils.

Yours truly

Gwyn Tudur
Headteacher

Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎01248 352 633 🖷 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur